# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Dolgellau**

**Canolfan Deulu Dolgellau**
**Old Drill Hall**
**Ffos-y-Felin**
**Dolgellau**
**LL40 1DE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

23/09/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Cylch Meithrin Dolgellau

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Dolgellau |
| Lleoedd cofrestredig | 48 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 20 Chwefror 2024 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **[Llesiant]** | **Da** |
| **[Gofal a Datblygiad]** | **Da** |
| **[Yr Amgylchedd]** | **Da** |
| **[Arweinyddiaeth a Rheolaeth]** | **Digonol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo. Maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff a gyda'i gilydd. Mae'r plant yn hyderus wrth wneud dewisiadau am y ffordd y maent yn treulio eu hamser ac maent yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt. Maent yn hyderus wrth ofyn i'r staff am gymorth os bydd angen, ac maent yn gwybod y bydd eu dymuniadau a'u hanghenion unigol yn cael eu parchu gan y staff.

Mae'r staff yn deall eu cyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn darparu gofal ymatebol ac yn defnyddio dulliau cadarnhaol i annog y plant i ryngweithio'n dda â'i gilydd. Mae'r staff yn ystyried diddordebau unigol ac anghenion datblygiadol y plant wrth ddarparu gweithgareddau ac yn gweithio'n dda gydag asiantaethau allanol i hybu dysgu a datblygiad y plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y safle yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae ganddynt systemau cadarn ar waith i fonitro a rheoli risgiau ynghyd â diogelwch tân yn effeithiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud yr amgylchedd yn groesawgar i'r plant. Maent yn cynnig dewis o deganau a chyfarpar addas, gan gynnwys amrywiaeth dda o gyfleoedd i archwilio deunyddiau naturiol a bywyd go iawn. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd i ddysgu am wahanol ddiwylliannau yn gyfyngedig.

Ar y cyfan, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn deall eu cyfrifoldebau. Mae ganddynt amrywiaeth o bolisïau ar waith i sicrhau bod y lleoliad yn rhedeg yn dda a bod y staff yn deall eu rolau. Fodd bynnag, mae angen i'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad sicrhau bod y staff yn cael cyfarfodydd goruchwylio rheolaidd ac ystyrlon. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi meithrin cydberthnasau addas â'r rhieni, gan sicrhau y rhoddir gwybodaeth iddynt am ddysgu a datblygiad eu plant.

## Llesiant — Da

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo ac maent yn mwynhau treulio amser yn y lleoliad. Maent yn symud yn rhydd o amgylch y gweithgareddau sydd ar gael ac yn arwain a chyfarwyddo eu chwarae eu hunain drwy gydol y dydd. Mae'r plant wedi meithrin cydberthnasau agos â'r staff ac yn teimlo'n hyderus i fynd atynt i gael help neu gymorth pan fo angen. Er enghraifft, mae'r plant yn mynd at y staff i ofyn am help i agor pacedi yn ystod amser cinio ac i ddod o hyd i'w hesgidiau fel eu bod yn gallu mynd i'r awyr agored i chwarae. Mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan fod y staff yn parchu pob ymgais ganddynt i gyfathrebu, ac yn gwrando'n astud ar yr hyn sydd gan y plant i'w ddweud. Er enghraifft, mae'r plant yn awyddus i ddangos pryfed y maent wedi dod o hyd iddynt wrth chwarae yn yr awyr agored ac yn gwenu wrth i'r staff ddangos brwdfrydedd a gofyn cwestiynau.

Mae'r plant yn amlwg yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd. Maent yn hyderus i fynd at ymwelwyr i drafod yr hyn maent yn ei wneud. Maent yn hyderus i fynegi eu dymuniadau a'u hanghenion i'r staff ac yn gwybod y bydd eu dymuniadau'n cael eu parchu. Er enghraifft, mae'r staff yn gofyn i'r plant a ydynt yn barod i gysgu ac yn parchu eu dymuniadau pan fyddant yn dweud eu bod am barhau i chwarae. Mae'r plant wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff ac yn mynd atynt i gael sicrwydd pan fo angen. Maent yn awyddus i gynnwys y staff yn eu chwarae, gan fynd atynt yn aml i ddangos yr hyn y maent yn ei wneud neu'n gofyn i'r staff ddarllen llyfrau gyda nhw.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd ac maent yn dechrau gwneud ffrindiau. Er enghraifft, mae'r plant yn gweithio gyda'i gilydd i bopian y swigod ar y papur swigod, gan drafod y rhannau y gallant eu popian nesaf yn llawn brwdfrydedd a'i bod yn haws eu popian drwy stompio eu traed. Mae'r plant yn dysgu cymryd eu tro a rhannu adnoddau. Er enghraifft, maent yn cymryd eu tro i ddefnyddio'r pensiliau lliwgar wrth arbrofi yn yr ardal celf a chrefft. Maent yn hapus i aros eu tro i ddefnyddio'r beiciau a'r sgwteri ar ôl iddynt gael eu hatgoffa'n garedig gan y staff.

Mae'r plant yn awyddus i archwilio eu hamgylchedd ac yn mwynhau cymryd rhan yn y gweithgareddau sydd ar gael. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau arbrofi gyda'r cynwysyddion gwahanol, gan esgus golchi'r teganau anifeiliaid yn y twb dŵr yn yr awyr agored. Maent yn canolbwyntio'n dda mewn gweithgareddau ac maent yn mwynhau dysgu sut i ddefnyddio gwahanol gyfarpar yn ystod gweithgareddau chwarae, fel sisyrnau, chwyddwydrau a brwsys gwahanol.

Caiff pob plentyn ei annog a'i gefnogi i wneud pethau drosto'i hun. Maent yn cwblhau rhai tasgau hunanofal yn annibynnol, gyda chymorth os oes angen. Mae'r plant yn golchi eu dwylo eu hunain mor annibynnol â phosibl, yn dewis eu ffrwythau eu hunain ac yn clirio eu platiau yn ystod amser byrbryd. Mae'r plant hefyd yn dewis pryd i gael eu byrbrydau a gallant arwain a chyfarwyddo eu chwarae eu hunain drwy gydol eu hamser yn y lleoliad.

| **Gofal** a Datblygiad | **Da** |
|---|---|

Mae'r staff yn deall eu cyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn hyderus o ran y gweithdrefnau i'w dilyn pe byddai ganddynt bryder am blentyn. Mae'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant. Mae gan y staff dystysgrifau cymorth cyntaf pediatrig cyfredol a chaiff unrhyw ddamweiniau neu ddigwyddiadau eu cofnodi'n effeithiol a'u rhannu â'r rhieni. Maent yn annog arferion iach drwy ddarparu digon o gyfleoedd i'r plant wneud ymarfer corff a threulio amser allan yn yr awyr iach. Mae'r staff yn hybu hylendid da drwy annog a chefnogi'r holl blant i olchi eu dwylo fel y bo angen, a dilyn dulliau effeithiol wrth newid cewynnau a pharatoi bwyd. Mae systemau effeithlon ar waith i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o ofynion deietegol unigol y plant er mwyn iddynt allu sicrhau bod y plant yn cael byrbrydau addas.

Mae'r staff wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant. Maent yn siarad â nhw mewn ffordd garedig ac yn eu trin â gofal a pharch. Mae'r staff yn defnyddio strategaethau effeithiol a chyson i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisi'r lleoliad. Er enghraifft, mae'r staff yn cefnogi'r plant pan fyddant yn ei chael hi'n anodd rhannu neu gymryd eu tro, ac yn rhoi esboniad clir pan na fydd eu hymddygiad yn dderbyniol. Mae'r staff hefyd yn modelu sgiliau cymdeithasol yn effeithiol wrth chwarae ochr yn ochr â'r plant; maent yn modelu dweud diolch a chanmol ei gilydd yn ystod gweithgareddau.

Mae'r staff yn paratoi'r ardaloedd chwarae gyda nifer briodol o weithgareddau i'r plant ddewis ohonynt. Fel arfer mae'r rhain yn cael eu paratoi yn unol â diddordebau'r plant a'r hyn y mae'r staff yn meddwl y bydd y plant yn eu mwynhau, gan gynnwys cymysgedd da o weithgareddau dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r staff yn gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol i roi system ar waith lle gall y plant ddilyn eu diddordebau eu hunain a dysgu drwy archwilio'n annibynnol a thrwy weithgareddau dan arweiniad y plentyn. Megis dechrau y mae hyn o hyd, gyda chynlluniau datblygu pellach. Mae'r staff yn casglu gwybodaeth gynhwysfawr am anghenion gofal, personol a meddygol unigol y plant cyn iddynt ddechrau yn y lleoliad, gan eu helpu i gynllunio'n effeithiol i ddiwallu anghenion unigol. Mae ganddynt weithdrefnau effeithiol ar waith i geisio a darparu cymorth i blant ag anghenion ychwanegol. Maent yn cofnodi arsylwadau ac yn nodi unrhyw bryderon yn ffeiliau unigol y plant, ac maent yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol i sicrhau bod y plant yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd diogel., Caiff mynedfa'r lleoliad ei rheoli, gyda drysau allanol sy'n cael eu cadw dan glo.  Dim ond drwy ganu'r gloch y rhoddir mynediad i ymwelwyr, ac yna gofynnir iddynt ddangos prawf adnabod a llofnodi'r llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd. Mae'r staff yn cadw cofrestr gywir o bresenoldeb y plant a'r staff, gan gynnwys amseroedd cyrraedd a gadael ac unrhyw symudiadau rhwng ystafelloedd. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad asesiadau risg ysgrifenedig cynhwysfawr ar waith, sy'n amlinellu unrhyw beryglon posibl i ddiogelwch y plant a'r camau a gymerwyd i reoli neu ddileu'r peryglon hyn. Caiff y dogfennau hyn eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau y caiff unrhyw beryglon posibl eu monitro a'u rheoli'n effeithiol. Mae'r staff yn sicrhau bod ymarferion tân rheolaidd yn cael eu cynnal fel bod y plant a'r staff yn gwybod sut i adael y safle yn gyflym ac yn ddiogel mewn argyfwng.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob ardal a ddefnyddir gan y plant yn fawr, yn groesawgar ac mewn cyflwr priodol. Mae'r ardal chwarae awyr agored yn cynnig ystod dda o gyfleoedd i'r plant archwilio a chwarae er mwyn datblygu eu dychymyg. Mae'n cynnwys cegin fwd, ardal chwarae dŵr ac amrywiaeth o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu a gweithgareddau synhwyraidd. Mae ardal awyr agored ar wahân ar gyfer y plant iau yn eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgaredd archwilio synhwyraidd yn ddiogel. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn annog y plant i fod yn ddysgwyr chwilfrydig. Y tu mewn i'r lleoliad, mae digon o gyfleoedd i archwilio deunyddiau bywyd go iawn, fel ffonau, pacedi a photeli wedi'u hailgylchu ac amrywiaeth o hetiau, esgidiau a dillad. Mae hyn yn galluogi'r plant i feithrin dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas ac i ddatblygu eu dychymyg. Fodd bynnag, mae gallu'r plant i gael gafael ar deganau ac adnoddau sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn gyfyngedig.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau sydd mewn cyflwr da ac sy'n briodol ar gyfer oedrannau a chamau datblygu'r plant. Caiff digon o ddewis o deganau ac adnoddau eu storio ar lefel isel fel y gall y plant gael gafael arnynt yn hawdd ac yn annibynnol. Caiff rhai gweithgareddau eu dewis gan y staff a'u gosod allan fel y gall y plant ddewis os byddant am gymryd rhan. Mae'r celfi a'r adnoddau ym mhob ystafell chwarae o faint addas ar gyfer oedrannau'r plant a fydd yn eu defnyddio. Mae'r toiledau yn cynnwys cyfleusterau addas, gyda sinciau a thoiledau isel i hyrwyddo annibyniaeth y plant. Caiff yr holl deganau ac adnoddau eu glanhau'n rheolaidd, a chaiff cofnodion eu cadw pan gaiff y tasgau hyn eu cwblhau er mwyn eu monitro'n effeithiol.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth **Digonol**

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhannu gweledigaeth glir â'r staff ac mae ganddynt amrywiaeth dda o bolisïau a gweithdrefnau ar waith, sy'n cyfrannu'n effeithiol at redeg y lleoliad yn hwylus. Maent yn adolygu'r polisïau hyn yn rheolaidd, gan sicrhau eu bod yn gyfredol a'u bod yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y datganiad o ddiben yn rhoi disgrifiad clir a chywir o'r gwasanaeth a gynigir. Mae hyn yn golygu y gall rhieni wneud penderfyniad gwybodus o ran p'un a yw'r lleoliad yn diwallu anghenion eu plentyn.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad drefniadau cadarn i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Maent yn gofyn yn rheolaidd am adborth ar lafar gan y rhieni yn ogystal â thrwy anfon holiaduron at y rhieni a'r staff. Caiff adborth ei gasglu hefyd gan y plant drwy drafodaethau ac arsylwi arnynt yn ddyddiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn llunio adroddiad mewn ymateb i'r adborth a gafwyd, yn nodi unrhyw welliannau a wnaed a'r rhai a gynllunnir ar gyfer y dyfodol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi rhoi systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod digon o staff yn bresennol bob amser i oruchwylio'r plant yn dda ac i gwblhau tasgau cyffredinol yn effeithiol. Mae'r cymarebau staffio bob amser yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol, gan gynnwys yn ystod amseroedd egwyl ac wrth fynd yn ôl ac ymlaen i'r ysgol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio cadarn ar waith er mwyn diogelu'r plant. Roedd ffeiliau'r staff yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gallu mynd at y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ar unrhyw adeg i drafod unrhyw faterion a'u hanghenion hyfforddiant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi rhoi fforymau gwerthuso i'r holl staff, fel eu bod yn gallu amlinellu unrhyw anghenion hyfforddiant neu faterion. Fodd bynnag, nid yw cyfarfodydd goruchwylio'r staff wedi cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff eto. Mae hyn wedi ei nodi'n faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad gymryd camau gweithredu prydlon.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad systemau priodol ar waith i gyfathrebu â'r rhieni, gan roi gwybodaeth reolaidd iddynt am amser eu plentyn yn y lleoliad. Mae'r staff yn cwblhau dyddiaduron dyddiol unigol ar gyfer y plant iau, er mwyn rhannu gwybodaeth â'r rhieni am y gweithgareddau y mae'r plant yn cymryd rhan ynddynt. Mae hyn yn cynnwys beth mae'r plant wedi'i fwyta, pryd maent wedi cysgu, manylion am eu hanghenion toiled ac unrhyw newidiadau i'w hwyliau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi sefydlu system newydd ar-lein lle gallant rannu lluniau, nodiadau arsylwi ar unigol a manylion y gweithgareddau y mae'r plant wedi cymryd rhan ynddynt. Mae hyn yn sicrhau bod y rhieni yn cael digon o fanylion am amser eu plant yn y lleoliad.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 27 | Mae'r Unigolyn Cyfrifol wedi methu â chynnal y cymarebau staffio priodol. | Cyflawnwyd |
| 28 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod gwiriadau addasrwydd yn cael eu cwblhau ar gyfer y staff gofal a'r gwirfoddolwyr cyn iddynt weithio gyda'r plant. | Cyflawnwyd |
| 20 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol wneud yn siŵr bod pob aelod o'r staff yn gwneud darpariaeth briodol i oruchwylio'r plant perthnasol er mwyn sicrhau diogelwch y plant. Rhaid iddo wneud yn siŵr bod gwaith cynllunio'n cynnig cyfleoedd priodol ar gyfer | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | dysgu a datblygiad y plant. | |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 29 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod yr holl staff yn cael cyfarfodydd goruchwylio ac arfarnu sy'n eu galluogi i gefnogi anghenion y plant yn effeithiol. | Heb Gyflawni |
| 30 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod cofrestrau'r staff yn adlewyrchu'n gywir y broses o ddyrannu neu symud staff yn y lleoliad, gan gynnwys egwyliau staff neu pan fyddant yn gadael i hebrwng plant i'r ysgol neu oddi yno. | Cyflawnwyd |
| 25 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau y caiff risgiau diangen i iechyd a diogelwch plant perthnasol eu nodi a'u dileu, cyn belled â phosibl. Ni chaiff arferion a gweithdrefnau hylendid eu cynnal yn ddigon da a gallent arwain at ledaenu haint. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| **Safonau Gofynnol Cenedlaethol** | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |

| | |
|---|---|
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| **Arferion Gorau** |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Cynyddu nifer yr adnoddau sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac amrywiaeth i wella gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o'r byd o'u cwmpas. |
| Datblygu cyfleoedd chwarae yn unol â diddordebau'r plant er mwyn hybu dysgu a datblygiad. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 11/11/2024